GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Anesthetig lleol ar gyfer llawdriniaeth ar eich llygaid

## Adran Offthalmoleg

**Beth ydy anesthetig lleol?**

- Cyffur sy'n eich atal rhag teimlo poen ydy anesthetig lleol.
- Gellir ei roi fel diferion llygaid a/neu bigiadau.
- Ar ôl i chi gael anesthetig lleol byddwch yn dal yn effro ac yn gwybod beth sy'n digwydd, ond y nod yw nad ydych yn teimlo unrhyw boen yn ystod y llawdriniaeth.

**Manteision anesthetig lleol:**

- Fel arfer mae'n dda iawn am eich atal rhag teimlo unrhyw boen yn ystod y llawdriniaeth.
- Mae'n dal i leddfu'r boen am sawl awr ar ôl y llawdriniaeth.
- Fel arfer mae ganddo lai o risgiau a sgil effeithiau nag anesthetig cyffredinol, yn enwedig os ydych chi mewn oed.
- Gan nad yw'n effeithio ar unrhyw ran arall o'ch corff fel eich anadl neu eich calon, mae pobl yn dod at eu hunain yn gynt ac yn gallu mynd adref yr un diwrnod.

**Pwy sy'n rhoi'r anesthetig lleol a sut caiff hynny ei wneud?**


- Mae anesthetyddion a llawfeddygon y llygaid wedi'u hyfforddi i roi anesthetig lleol.

**Mae dau fath o anesthetig lleol:**

1. Mae rhai llawdriniaethau yn addas i'w cynnal gyda diferion mudo poen yn unig.
2. Mae llawer o lawdriniaethau yn gofyn am bigiadau anesthetig lleol yn ogystal â phigiadau mudo poen.

**Ydy'r pigiad anesthetig lleol yn boenus?**

- Mae hyn yn amrywio o berson i berson.
- Defnyddir diferion llygaid sy'n achosi dideimladrwydd yn arwyneb y llygaid eu defnyddio gyntaf i'w gwneud mor gyfforddus â phosib.
- Wedi hyn, rhoddir pigiad o amgylch y llygaid (nid yng nghannwyll y llygaid ei hun) gan ddefnyddio nodwydd arbennig i gwblhau'r broses o ddideimladrwydd.




Rhoddir Anesthetig Lleol yng nghornel y llygaid

Efallai y byddwch yn teimlo’r llygaid yn llosgi a phwysau/neu bwysau, sydd fel arfer yn para llai na munud.

**Sut ydw i’n gwybod bod y pigiad yn gweithio?**

- Bydd eich meddyg yn cadarnhau a yw eich llygaid yn ddideimlad.
- Efallai y gofynnir i chi edrych i wahanol gyfeiriadau i asesu effeithiolrwydd yr anesthetig.
- Peidiwch â phoeni am amrantu neu symud eich llygaid yn ystod y llawdriniaeth. Bydd yr anesthetig lleol yn gofalu am hynny.
- Pan fydd yr anesthetig yn dechrau gweithio, mae’n bosib y bydd eich golwg yn dod yn aneglur. Bydd hyn yn gwella wrth i effaith yr anesthetig bylu.
- Pan fyddan nhw’n hapus fod yr anesthetig wedi gweithio, cewch eich cludo i’r theatr.

**Effeithiau posibl anesthesia lleol**

- Cleisiau is-gyfbilennol - cleisiau dwysach ar wyn y llygaid
- Chemosis – crynhoad o anesthetig lleol ar flaen y llygaid
- Parlys y Cyhyrau – golwg dwbl ac amrant llygaid ar ogwydd am 24-48 awr yn dilyn llawdriniaeth

**A oes unrhyw gymhlethdodau mewn cysylltiad ag anesthesia lleol?**

- Ystyrir mai anesthesia lleol ar gyfer llawdriniaeth ar y llygaid yw’r anesthetig diogelaf i lawer o bobl.
- Weithiau mae’n bosib y cewch gleisiau neu lygaid du os yw'r pigiad yn niweidio'r llestri gwaed o amgylch y llygaid. Nid yw hyn yn ddifrifol fel arfer ond gall edrych yn hyll am tuag wythnos neu fwy.
- Mae’n fwy cyffredin os ydych yn defnyddio aspirin neu gyffuriau eraill sy'n teneuo'r gwaed, fel Clopidogrel neu Warfarin.
- Yn anaml, ceir gwaedu pwysicach o amgylch y llygaid. Gall hyn olygu y bydd rhaid gohirio’r llawdriniaeth tan ddiwrnod arall nes bydd hyn yn setlo.

**Ceir cymhlethdodau difrifol yn anaml iawn**

- Er yn anaml neu’n anaml iawn, gall niwed i'r llygaid, llestri gwaed neu gyhyrau'r llygaid ddigwydd.
- Gall eich calon, pwysau gwaed ac anadl gael eu heffeithio hefyd.
- Bydd eich anesthetydd neu lawfeddyg y llygaid yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi am y cymhlethdodau hyn.

**Ar ddiwrnod y llawdriniaeth**

- Caiff popeth ei esbonio i chi cyn eich llawdriniaeth.
- Bydd digon o amser gennych cyn eich llawdriniaeth i fynd i'r tŷ bach.
- Croesawir unrhyw gwestiynau eraill a all fod gennych ar y dydd.

**Cofiwch os bydd unrhyw broblem, mae'r staff meddygol a nyrsio sy'n gofalu amdanoch wedi'u hyfforddi i ddelio â nhw.**

Rhagor o wybodaeth: **www.rcoa.ac.uk/patientinfo**
(Chwiliwch am 'Anesthesia Lleol ar gyfer llawdriniaeth ar eich llygaid')

**"This document is available in English /**
**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg".**